# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 14 Medi, 2023

Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh

**Presennol:**

Cynghorwyr:

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Einir Lewis

Dafydd Ll Williams

Nia M Jones

Phil Roberts

Gareth W Roberts

Nerys Williams – Clerc

Nia Jane Owen-Midwood – Clerc

1. **Ymddiheuriadau**
   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sirol Anwen Davies, Cynghorydd Rhys Jones a'r Cynghorydd Tesni Jones.

2. **Cadarnhau cofnodion cyfarfod 13 Gorffennaf, 2023**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd bod Cofnodion 13eg Gorffennaf, 2023 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

3. **Materion yn codi**
   Nid oedd materion yn codi.

4. **Ymddiswyddiad y Clerc**
   Diolchodd y Cadeirydd i Nerys am ei gwaith fel clerc a dymunodd bawb ymddeoliad hapus iddi. Croesawyd Nia i'r swydd. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu cyflog i'r ddwy am fynychu cyfarfod heno.

5. **Cynllunio – C23/0611/33/YA – Bodvel Hall, Lôn Boduan, Efailnewydd, LL53 6DW**
   Cafwyd cais Cynllunio i godi sied amaethyddol er mwyn cadw offer fferm yn Bovel Hall, Lôn Boduan, Efailnewydd. Fe drafodwyd y cais ac fe'i cefnogwyd yn unfrydol.

6. **Unrhyw gynghorydd yn datgan diddordeb**
   Ni wnaeth yr un cynghorydd ddatgan diddordeb.

**7. Gohebiaeth**

Derbyniwyd llythyr gan Eleri Williams, Glanrafon, Rhydyclafdy ynglŷn â datblygu hen gae ysgol yn gae chwarae i blant yr ardal. Nodwyd bod Alys Jones, Swyddog Cymunedau, Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r cae, gan nodi'n gyffredinol bod y safle yn ymddangos yn addas ac yn ddiogel.

Mae Eleri wedi gwadd unrhyw un sydd ar y Cyngor Cymuned i ymuno gyda hwy ar Bwyllgor y Cae Chwarae, a bu i'r Cyngor grybwyll Rhys Jones fel cynrychiolydd i fynychu'r cyfarfod.

Nodwyd mai Cyngor Gwynedd sydd berchen y cae, gyda'r Cyngor Cymuned yn talu'r denantiaeth. Yn dilyn y cyfarfod bu i'r Cadeirydd gysylltu gyda'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies er mwyn trafod y mater, a chytunwyd y byddai'n cael mwy o wybodaeth am y cae, gan gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Nodwyd mai'r Cyngor Cymuned sy'n talu yswiriant ar y cae chwarae fel y mae rŵan, a hefyd y "public liability".

Nodwyd bod angen tystiolaeth eu bod (sef y Pwyllgor Cae Chwarae) yn talu'r yswiriant.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn holi Adran Stadau, Cyngor Gwynedd os oes gweithredoedd yn perthyn i Gae'r Ysgol ar gael.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn ymateb i lythyr Eleri Williams, gan nodi bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais.

**8. Materion Ariannol**

Cysoniad banc o ddyddiad:
04/07/2023 – 03/08/2023 - £6032.74
04/08/2023 – 03/09/2023 - wedi ei chael yn gywir yn y swm o £7,901.94c

Cafodd 6 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil W Roberts :

| | | |
|---|---|---|
| Archwiliad Mewnol (Cyngor Gwynedd) | £204.00 | Siec Rhif – 200737 |
| Bacstal | £141.00 | Siec Rhif – 200738 |
| Zurich Insurance | £257.60 | Siec Rhif – 200739 |
| Nerys Williams (Mis 6) | £111.99 | Siec Rhif – 200740 |
| Cyllid a Thollau | £27.80 | Siec Rhif – 200741 |
| Tu Hwnt i'r Afon Cyf | £20.00 | Siec Rhif – 200742 |

**9. Unrhyw fater arall**

Derbyniwyd e-bost gan Meinir yn diolch i'r Cyngor Cymuned am eu cyfraniad tuag at harddu ardal Boduan yn ystod cyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cytunwyd i ail leoli'r defaid ar y tamaid tir ym mhentref Rhydyclafdy.

Cytunwyd i adael y teiars a'r blodau o flaen yr Eglwys ym Moduan.

Trafodwyd yr ardal lle mae'r ceir yn troi i mewn i gae'r Ysgol ar y dde yn Rhydyclafdy, bod pwll mawr yn dechrau hel yno. Cytunwyd i'r Cadeirydd gael dau ddyfynbris i gwblhau'r gwaith a'u cyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref. Cytunwyd y Cyngor bod angen cwblhau'r gwaith.

Adroddwyd y Cynghorydd Phil Roberts ei fod wedi derbyn cwyn bod brigau wedi tyfu'n isel ar Lôn Llyn (Two Tonnes) Boduan, sef y lôn sy'n croesi o Glanrafon i'r Efail. Hefyd bod angen barbio'r ardal rhwng Lodge Madryn a Nant Cledrydd, Ceidio. Cytunwyd i'r clerc e-bostio Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd i adrodd am hyn.

**10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf –**
Nos Iau, 12 Hydref 2023 am 7.30yh yn Tu Hwnt i'r Afon Rhydyclafdy.